Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | ChiefInspector@estyn.gov.uk |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 17 Ebrill 2019 |
| **Pwnc / Subject:** | Mesur cynnydd cenedl |



## Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae hyn wedi'i amlinellu'n bennaf yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005. Wrth arfer ei swyddogaethau, rhaid i Estyn ystyried y canlynol:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn diwallu anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallai Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater yn gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. I gyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi gosod tri amcan strategol, sef:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

## CYFLWYNIAD

Mae addysg yn hawl ddynol sylfaenol[1]. Ei phrif ddiben yw paratoi pobl trwy roi iddynt y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud y gorau o'u doniau, eu diddordebau a'u galluoedd unigol i gyflawni eu potensial [2] [3]. Yn ogystal â llythrennedd a rhifedd, dylai addysg helpu pobl i fyw bywydau iach, hapus, ffyniannus a pharchus[4]. Addysg yw un o'r conglfeini ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy a sicrhau dyfodol cynaliadwy[5].

Mae Estyn wedi croesawu cynlluniau Llywodraeth Cymru i barhau i ysgogi gwelliannau mewn system addysg sydd wedi'i seilio ar egwyddorion cydraddoldeb, tegwch a chynhwysiant[6]. Er bod llawer i'w ddathlu, mae gwaith i'w wneud o hyd. Gwyddom na chaiff pob dysgwr yr un cyfle i elwa ar addysg o ansawdd da a chyflawni lefelau cyrhaeddiad uchel. Mae deilliannau addysg gwaelach wedi eu cysylltu'n anghymesur â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, sy'n byw ag anabledd, sy'n perthyn i gymuned pobl dduon neu leiafrifoedd ethnig[7], ac sydd wedi derbyn gofal gan yr awdurdodau lleol. Mae'r anfantais gynnar hon yn debygol o barhau yn ystod eu bywydau yn ddiweddarach, gan niweidio eu cyfleoedd cyflogaeth a'u rhagolygon cyffredinol o ran iechyd a lles[8].

Bu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ysgogwr newid allweddol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ymdrechion i gyfuno ein hewyllys strategol a'n hadnoddau i wella lles cyffredinol Cymru. Mae saith Nod Llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf yn darparu fframwaith cynhwysfawr sy'n ein cynorthwyo i wneud y mwyaf o gyfraniad Cymru i gyflawni rhwymedigaethau domestig a rhyngwladol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi eu cynnwys mewn cytundebau hawliau dynol rhyngwladol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Mae gosod nodau uchelgeisiol i wella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru yn ymarfer gwerth chweil ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, mae olrhain graddfa a chyflymdra newid yn effeithiol yn elfen allweddol o ddatgloi datblygiad cynaliadwy rhagweithiol a sicrhau bod Cymru yn cyflawni'r nod hwn. Felly, mae Estyn yn cefnogi

[1] Erthygl 10 – Y Cenhedloedd Unedig (1948) *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.ohchr.org/EN/UDHR/Documents/UDHR_Translations/eng.pdf. Darllenwyd ar: 15/04/2019

[2] Erthygl 13 – Y Cenhedloedd Unedig (1966) *Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/cescr.pdf Darllenwyd ar: 15/04/2019

[3] Erthygl 29 – Y Cenhedloedd Unedig (1989) *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.ohchr.org/Documents/ProfessionalInterest/crc.pdf. Darllenwyd ar: 15/04/2019

[4] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2001) *Sylw Cyffredinol Rhif 1: Nodau Addysg.* [.doc] Ar gael ar-lein yn: https://www.google.com/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=2&ved=2ahUKEwjA8L63kdLhAhV1sXEKHSd1CQAQFjABegQIABAC&url=https%3A%2F%2Fwww2.ohchr.org%2Fenglish%2Fbodies%2Fcrc%2Fdocs%2FGC1_en.doc&usg=AOvVaw1XjvUbKtBPsMrK-LOJvmxR. Darllenwyd ar: 15/04/2019

[5] Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (2016) *Education 2030: Incheon Declaration and Framework for Action for the implementation of Sustainable Development Goal 4 – Ensuring inclusive and equitable quality education and promote lifelong learning opportunities for all.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: http://uis.unesco.org/sites/default/files/documents/education-2030-incheon-framework-for-action-implementation-of-sdg4-2016-en_2.pdf. Darllenwyd ar: 15/04/2019

[6] Llywodraeth Cymru (2017) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/education-in-wales-our-national-mission.pdf. Darllenwyd ar: 16/04/2019

[7] Llywodraeth Cymru (2019) *Dangosyddion CA4 yn ôl blwyddyn a chefndir ethnig 2016-18.* [.html] Ar gael yn: https://statswales.gov.wales/v/FXM7. Darllenwyd ar: 16/04/2019

[8] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) *A yw Cymru'n Decach?: Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/is-britain-fairer-2018-is-wales-fairer.pdf. Darllenwyd ar: 16/04/2019

defnyddio'r gyfres o ddangosyddion cenedlaethol[9] i gynnig cerrig milltir a fydd yn helpu monitro cynnydd lles cenedlaethol.  Fodd bynnag, mae lle i wella'r cerrig milltir a gynigir.

Mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar:

- Ychwanegu cerrig milltir a fydd yn helpu mesur cynnydd ar ddiogelwch ac ymdeimlad o berthyn
- Ehangu'r set ddata i gynnwys safbwyntiau plant a phobl ifanc
- Addasu yn unol â mesurau perfformiad disgyblion newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

**CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD**

**A. <u>Newidiadau i'r meini prawf i ddewis dangosyddion cenedlaethol y bydd cerrig milltir cenedlaethol yn cael eu datblygu yn unol â nhw</u>**

**Cwestiwn 1: A ydych yn cynnig unrhyw newidiadau i'r meini prawf?**

| | |
|---|---|
| **Ydyn** | X |
| **Nac ydyn** | |

**Cwestiwn 6: A ydych chi'n cynnig dileu unrhyw un o'r meini prawf presennol?**

| | |
|---|---|
| **Ydyn** | |
| **Nac ydyn** | X |

**B. <u>Newidiadau i'r set fach o ddangosyddion cenedlaethol y bydd cerrig milltir cenedlaethol yn cael eu datblygu yn unol â nhw</u>**

**Cwestiwn 7: A ydych chi'n cynnig unrhyw newidiadau i'r set fach o ddangosyddion cenedlaethol rydym yn cynnig gosod cerrig milltir cenedlaethol yn unol â nhw?**

| | |
|---|---|
| **Ydyn** | X |
| **Nac ydyn** | |

**Cwestiwn 8: A ydych chi'n cynnig dileu neu ychwanegu dangosyddion cenedlaethol o'r set fach rydym yn cynnig gosod cerrig milltir cenedlaethol yn unol â nhw? (Ticiwch un blwch)**

| | |
|---|---|
| **Dileu** | |
| **Ychwanegu** | X |

[9] Llywodraeth Cymru (2016) *Sut mae mesur cynnydd cenedl?: Dangosyddion cenedlaethol ar gyfer Cymru.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://llyw.cymru/?_ga=2.130573261.330248680.1571388090-1696243265.1547551928 Darllenwyd ar: 16/04/2019

**Cwestiwn 9: Os ydych chi'n cynnig dangosydd cenedlaethol ychwanegol y dylid gosod carreg filltir yn unol ag ef, pa ddangosydd cenedlaethol ydych chi'n cynnig ei ychwanegu?**

Ychwanegu set ychwanegol o gerrig milltir yn unol â'r canlynol:

**Dangosydd Cenedlaethol 27:** Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r maes; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn gyrru ymlaen â'i gilydd yn dda; a bod pobl yn parchu ei gilydd.

**Cwestiwn 11: Rhowch esboniad ar gyfer eich newidiadau arfaethedig a'r cyfraniad a wnânt at set fach a chytbwys o gerrig milltir.**

Mae Estyn yn croesawu'r bwriad i gadw'r set arfaethedig o gerrig milltir yn fach. Bydd hyn yn helpu cyrff cyhoeddus i ganolbwyntio ar feysydd polisi cymdeithasol trawsbynciol. Bydd y cerrig milltir arfaethedig yn darparu fframwaith buddiol i fesur cynnydd yn unol â'r rhan fwyaf o'r Nodau Lles. Fodd bynnag, ychydig iawn a geir i fonitro datblygiadau yn 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal' a 'Cymru o gymunedau cydlynus', yn enwedig o ran sicrhau ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn i gymuned.

Mae rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn fenter uchelgeisiol. Mae pedwar diben y cwricwlwm ysgol newydd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar sicrhau cynnydd cenedlaethau'r dyfodol trwy greu:

- dysgwyr uchelgeisiol a galluog sydd…yn barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus a chreadigol sydd…yn barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol a gwybodus sydd…yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
- unigolion iach a hyderus sydd…yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas[10].

Fodd bynnag, gwyddom nad yw pob dysgwr yn cael yr un cyfle i elwa ar addysg o ansawdd da, a chyflawni lefelau cyrhaeddiad uchel. Yn aml, gall effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, tlodi[11], anabledd[12] a derbyn gofal[13] rwystro galluoedd dysgwyr a'u parodrwydd i ddysgu. Mae'r anghydraddoldeb hwn yn debygol o ddilyn plant a phobl ifanc i'w bywydau fel oedolion ac mae'n debygol o leihau eu rhagolygon lles cyffredinol wrth iddynt dyfu[8].

Mae datblygu cynaliadwy yn dechrau ac yn gorffen â phlant diogel, iach sy'n cael eu haddysgu'n dda[14]. Felly, yn ogystal â manteision addysg, mae'n bwysig sefydlu cerrig milltir sy'n helpu i ni bennu pa mor dda rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n atal dysgwyr rhag ymgymryd yn llawn â'u profiadau addysgol, neu wneud y gorau ohonynt, yn

---

[10] Llywodraeth Cymru (2018) *Pedwar diben y cwricwlwm i Gymru.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/the-four-purposes-of-the-curriculum-for-wales.pdf Darllenwyd ar: 16/04/2019

[11] Llywodraeth Cymru (2019) *Dangosyddion allweddol Cyfnod Allweddol 4 fesul hawl i Brydau Ysgol Am Ddim, ac ardal 2017/18.* [.html] Ar gael ar-lein yn: https://statswales.gov.wales/v/FW97. Darllenwyd ar: 16/04/2019

[12] Llywodraeth Cymru (2019) *Dangosyddion Cyfnod Allweddol 4 yn ôl blwyddyn a math o AAA (Angen addysgol arbennig) 2018*. [.html] Ar gael ar-lein yn: https://statswales.gov.wales/v/FXM6. Darllenwyd ar: 16/04/2019

[13] Llywodraeth Cymru (2019) *Plant 16 oed a throsodd sy'n gorffen derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, cymwysterau a mesur.* [.html] Ar gael ar-lein yn: https://statswales.gov.wales/v/FXNA. Darllenwyd ar: 16/04/2019

[14] UNICEF (2015) *A post-2015 world fit for children.* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: https://www.unicef.org/socialpolicy/files/Sustainable_Development_post_2015.pdf. Darllenwyd ar: 16/04/2019

yr ysgol a'r tu allan.

Mae dangosyddion sy'n cyd-fynd neu a allai weithredu fel procsi ar gyfer cerrig milltir a grëwyd o dan **Ddangosydd Cenedlaethol 27** yn cynnwys:

- 18. Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o gymharu â chanolrif y DU, wedi'i mesur ar gyfer plant, oedran gweithio a'r rheiny o oedran pensiwn
- 19. Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd sylweddol
- 23. Canran sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol
- 24. Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i ddefnyddio/fanteisio ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt
- 25. Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, yn cerdded yn yr ardal, ac wrth deithio
- 26. Canran y bobl sy'n fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw
- 28. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli
- 30. Canran y bobl sy'n unig
- 35. Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn
- 37. Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
- 38. Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith yr wythnos neu fwy.

Bydd sefydlu cerrig milltir sy'n berthnasol i 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal' a 'Cymru o gymunedau cydlynus' yn helpu cyrff cyhoeddus i ystyried yr elfennau lles goddrychol yn gryfach yn eu cynllunio strategol, wrth ddyrannu adnoddau ac wrth werthuso. Gallai gefnogi datblygu dulliau ysgol gyfan a chynorthwyo cydweithio rhwng gwasanaethau sydd wedi eu cynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn addysg.

Bydd llawer o'r ffynonellau data sy'n dod o dan y dangosyddion yn galluogi dadansoddi ystod o faterion lles goddrychol (er enghraifft, pa mor dda mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn gwneud penderfyniadau neu'r cyfle a gânt i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon) wedi eu dadgyfuno yn unol â'r nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, mae llawer o'r data ar gyfer y dangosyddion hyn yn dibynnu ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru. Er y bydd hyn yn cynnig gwybodaeth bwysig a allai ymwneud â dysgwyr sy'n oedolion a'r boblogaeth ehangach, mae'r Arolwg Cenedlaethol yn eithrio safbwyntiau plant a phobl ifanc oedran ysgol (5 – 15 mlwydd oed). Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn amlinellu disgwyliadau ar gyfer casglu data digonol a dibynadwy i nodi gwahaniaethu a/neu anghyfartaledd wrth roi hawliau plant ar waith[15]. I gau'r bwlch data a amlygwyd uchod, gallai Llywodraeth Cymru ailagor trafodaethau i sefydlu arolwg cenedlaethol i blant, neu, fel cam cyntaf, ystyried sut gallai canlyniadau sydd ar ddod yr arolwg Ymddygiadau Iechyd Plant Oedran Ysgol (HBSC) ehangu'r set ddata sy'n cefnogi'r Dangosyddion Cenedlaethol.

## C. Newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol

**Cwestiwn 13:** **A ydych chi'n cynnig unrhyw newidiadau i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol?**

| **Ydyn** | x |
|---|---|

[15] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2003) *Sylw Cyffredinol Rhif 5: Mesurau Cyffredinol o Weithredu'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (arts. 4, 42 a 44, para. 6).* [.pdf] Ar gael ar-lein yn: http://docstore.ohchr.org/SelfServices/FilesHandler.ashx?enc=6QkG1d%2fPPRiCAqhKb7yhsiQql8gX5Zxh0cQqSRzx6Zd2%2fQRsDnCTcaruSeZhPr2vUevjbn6t6GSi1fheVp%2bj5Jer1JAcdCHPFrKeD69Ql4JkGsjjg4QeTW0QYyXSpJcw Darllenwyd ar: 16/04/2019

| | |
|---|---|
| **Nac ydyn** | |

**Cwestiwn 14:** **Pa fath o newid ydych chi'n ei gynnig i'r 46 dangosydd cenedlaethol presennol?**

| | |
|---|---|
| **Dileu neu newid dangosydd presennol** | x |
| **Newydd** | |

**Cwestiwn 15:** **Os ydych chi'n cynnig newid i ddangosydd/ion presennol neu'n cynnig dangosydd newydd, rhowch y fersiwn rydych chi'n ei chynnig.**

Rydym yn cytuno y bydd angen addasu geiriad **Dangosydd Cenedlaethol 7** maes o law, fel y nodwyd yn nogfen yr ymgynghoriad ac yn ein hesboniad yn ein hateb i C17.

**Cwestiwn 17:** **Os ydych chi'n cynnig dileu dangosydd cenedlaethol presennol, nodwch y dangosydd hwnnw.**

Mae angen cadw dangosydd perfformiad disgyblion tuag at ddiwedd ysgol uwchradd o hyd. Mae Llywodraeth Cymru yn seilio'r dangosydd cenedlaethol presennol ar fesur presennol perfformiad ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan ddogfen yr ymgynghoriad, mae'n debygol y bydd hyn yn newid wrth i ni symud tuag at ddiwygio'r cwricwlwm a datblygu cyrsiau TGAU newydd rhwng 2020 a 2024.

O safbwynt tymor hir, efallai na fydd y dangosydd presennol yn fesur priodol ar gyfer y cerrig milltir. Fodd bynnag, gallai weithredu fel mesur priodol yn y cyfamser. Bydd angen i newidiadau i'r set dangosyddion cenedlaethol yn y dyfodol ystyried unrhyw fesurau perfformiad disgyblion newydd sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, bydd angen ystyried sicrhau hefyd nad oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar ymddygiadau yn y system addysg yn sgil codi'r defnydd o'r dangosyddion perfformiad at y diben hwn.

[DIWEDD]